*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda**

| | |
|---|---|
| Yn adrodd i'r | **Pwyllgor Archwilio a Risg** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2023** |
| Prif Swyddog | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad hwn yw cadarnhau i'r Aelodau ganlyniad yr archwiliad allanol o fesurau gwella'r Awdurdod ar gyfer 2023/24, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gyhoeddi Cynllun Gwella blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r gofyniad hwn wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Corfforaethol 2021-2024 (diwygiedig Mawrth 2023) yr Awdurdod a gyflwynwyd i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 17 Ebrill 2023.

3 Mae'r mesurau gwella yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, y mae'n ofynnol iddynt adrodd a ydy'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan adran 17 ac 19 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## ARGYMHELLION

4 Gofynnir i'r Aelodau:

1) Nodi'r llythyr archwilio sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## CEFNDIR

5 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod, caiff y rhain eu trin fel yr un peth.

6 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod:

- Gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- Gwneud trefniadau i sicrhau y cyflawnir ei amcanion gwella; a
- Gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei bodloni.

**GWYBODAETH**

7 Mae Cynllun Corfforaethol 2021-24 (diwygiedig Mawrth 2023) yn nodi amcanion yr Awdurdod a chafodd ei gymeradwyo gan yr Aelodau yn y cyfarfod ar 17 Ebrill 2023. Mae Cynllun Corfforaethol 2021-24 yn destun adolygiad archwilio gan Archwilio Cymru ac mae'n ofynnol iddo gadarnhau a ydy'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r mesurau gwella.

8 Mae'r llythyr archwilio a welir yn Atodiad 1 yn cadarnhau bod Archwilio Cymru wedi cwblhau ei waith ar Gynllun Corfforaethol 2021-24 a'i fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. |
| Cyllideb | Mae'r mesurau gwella a nodir yn y Cynllun Corfforaethol wedi'u ategu gan y broses cynllunio ariannol. |
| Cyfreithiol | Mae adroddiad Archwilio Cymru yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae datblygiad Cynllun Corfforaethol 2021-24 yn ystyried y risgiau a wynebir gan yr Awdurdod. |